



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Steddy Ltd

**STEDDY & ASSOCIATES
TREWFIELD
TONDU ROAD
PEN-Y-BONT AR OGWR
CF31 4LH**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cyhoeddi

28 Mawrth 2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Steddy Limited wedi'i gofrestru i ddarparu gofal yn y cartref i oedolion 18 oed sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain o fewn ardaloedd lleol partneriaethau rhanbarthol Bae'r Gorllewin, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Gorllewin Cymru. Serch hynny, ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu yng Nghwm Taf.

Mae swyddfa gofrestredig yr asiantaeth wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae dau reolwr yn gyfrifol am y gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Paul Steddy yw'r unigolyn cyfrifol.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Gallai'r bobl sy'n byw yn ardal bartneriaeth ranbarthol Cwm Taf ddisgwyl cael gofal a chymorth gan wasanaeth sy'n cael ei reoli gan dîm rheoli proffesiynol, profiadol a brwdfrydig sy'n parhau i gynnal diwylliant lle mae'r bobl yn ganolog i'r gwasanaeth. Roedd y gweithiwr gofal yn broffesiynol, wedi'u hyfforddi'n dda a gwnaethant ddangos wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r heriau y mae'r bobl yn eu hwynebu.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw un yn ardal bartneriaeth ranbarthol Cwm Taf yn defnyddio'r gwasanaeth. O ganlyniad, ni allwn wneud sylwadau ar adrannau "Llesiant" na "Gofal a Datblygiad" yr adroddiad hwn.

2. Gwelliannau

Ni nodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio nac argymhellion yn ystod yr arolygiad blaenorol.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a lle nad yw'r gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Ni allwn wneud sylwadau ar yr adran hon am nad yw Steddy Ltd yn darparu gwasanaeth yn ardal bartneriaeth ranbarthol Cwm Taf ar hyn o bryd.

2. Gofal a Datblygiad

Ein canfyddiadau

Ni allwn wneud sylwadau ar yr adran hon am nad yw Steddy Ltd yn darparu gwasanaeth yn ardal bartneriaeth ranbarthol Cwm Taf ar hyn o bryd.

3. Ansawdd Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith i ategu'r broses o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses honno ac roeddent ar gael drwy gydol yr arolygiad. Roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan deulu gyda'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr yn cynnig cymorth i'w gilydd bob dydd. Darparwyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani yn brydlon. Roedd yr awyrgylch yn hamddenol, cyfeillgar ond yn broffesiynol ac roedd y tîm rheoli ar gael yn hawdd i'r gweithwyr gofal a'r staff gweinyddol ac roeddent yn eu cefnogi. Gwnaethant hefyd ddangos dealltwriaeth dda o anghenion gofal y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ym mhob un o'r ardaloedd daearyddol roeddent yn eu cwmpasu. Roedd y staff yn canmol gweithio yn y gwasanaeth. Roedd sylwadau'n cynnwys *"I thoroughly enjoy my job"*, *"excellent support"* gan y tîm rheoli ac mae'r *"organisation is relaxed and supportive"*. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym fod y gwasanaeth yn hyblyg ac yn gwneud pob ymdrech i ddiwallu anghenion newidiol yr unigolion roedd yn eu cefnogi.

Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth yn disgrifio'r hyn roedd y gwasanaeth yn ei ddarparu yn gywir, gan gynnwys pa ardaloedd daearyddol roedd yn eu cwmpasu. Roedd ar gael i'r sawl a oedd yn gofyn amdano. Roedd canllawiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael i'r bobl pan fyddant yn dechrau cael gofal a chymorth gan y gwasanaeth. Roedd hyn yn rhoi manylion o'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan y gwasanaeth yn ogystal â manylion cyswllt y swyddfa a manylion am y broses gwyno pe byddai angen iddynt ei defnyddio. Roedd y tîm rheoli yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cynnal cyfarfodydd misol er mwyn adolygu'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Felly, mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau clir i oruchwylio a rheoli'r gwasanaeth er mwyn gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth broses sicrhau ansawdd glir. Gwelsom adroddiad ar sicrhau ansawdd a gafodd ei lunio yn dilyn trafodaeth gyda'r bobl a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth, gan gynnwys unigolion a oedd yn cael y gwasanaeth a'r staff. Cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu yn dilyn yr adolygiad o ofal gyda'r bwriad o wella a datblygu'r gwasanaeth ymhellach. Ymwelodd yr unigolyn cyfrifol â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth fel rhan o'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Roedd cofnodion o'r ymweliadau hyn yn dangos tystiolaeth o drafodaethau â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Dywedodd y rheolwr fod yr ymweliadau hyn yn gadarnhaol a'u bod yn rhoi mwy o gyfle i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan roi cyfle iddynt drafod y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Roedd y tîm rheoli yn cynnal hapwiriadau ar y gweithwyr gofal yn y

gymuned yn rheolaidd ynghyd ag asesiadau cymhwysedd meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ddiogel. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar gael a chawsant eu diweddarau'n gyson er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth newidiol ac argymhellion o ran arfer gorau. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt fynediad at bolisïau a bod y wybodaeth ddiweddaraf bob amser yn cael ei rhannu â nhw. Dywedodd un ohonynt wrthym ei fod wedi cael y polisi diogelu diwygiedig yn ddiweddar ar ôl i newidiadau gael eu gwneud iddo. Rydym o'r farn bod gan y gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth. Dywedodd y rheolwr wrthym y gallai'r broses recriwtio fod yn anodd ond nad oedd yn defnyddio staff asiantaeth. Roedd nifer fawr o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Roedd system ar waith i fonitro a rheoli salwch y staff.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Gwnaethant ganmol y ffaith bod ganddynt ddigon o amser i deithio rhwng galwadau a gwelsom ddogfennaeth yn nodi bod y gweithwyr gofal yn cael seibiannau rheolaidd. Roedd sylwadau gan y gweithwyr gofal yn cynnwys pethau fel *"they always listen to us, and if more travel time is needed this is organised"* a *"they really care about us as staff"*. Gwelsom fod system monitro galwadau electronig ar waith. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithwyr gofal ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain i sganio pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael pob galwad. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau bod y system yn gywir. Roedd hyn yn cynnwys cydgysylltu â'r darparwr TG a darparu canllawiau pellach i'r staff.

Roedd y chwe ffeil personél a welwyd wedi'u trefnu'n dda ac yn dangos i ni fod prosesau recriwtio a sefydlu da ar waith. Dangosodd cofnodion fod y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwyllo un i un â'u rheolwr llinell yn rheolaidd. Roedd y rhain yn dangos bod eu hyfforddiant a'u datblygiad personol yn cael eu trafod a bod nodau'n cael eu pennu. Cafodd hyn ei gadarnhau mewn trafodaethau â'r gweithwyr gofal. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant da yn barhaus. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol ac allanol. Gwnaethom siarad â'r hyfforddwr a ddywedodd wrthym y gellid darparu hyfforddiant pwrpasol a oedd yn benodol i anghenion unigol. Dywedodd wrthym fod diwylliant cadarnhaol yn y sefydliad a bod y cyfathrebu â'r tîm rheoli yn dda. Felly, caiff y gweithwyr gofal eu cefnogi i fod yn hyderus ac yn gymwys yn eu rôl sy'n eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni nodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio nac argymhellion yn ystod yr arolygiad blaenorol.

4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd. Cynhaliwyd yr arolygiad swyddfa ar 16 Ionawr 2019 rhwng 09:00a.m a 5:00p.m ac 17 Ionawr rhwng 9:00a.m ac 11:00a.m.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol.

- Gwnaethom gynnal dau ymweliad dirybudd â swyddfa gofrestrdig y gwasanaeth;
- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr a oedd yn bresennol yn ystod y ddau ymweliad;
- Gwnaethom siarad ag 8 gweithiwr gofal;
- Edrychwyd ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y rota staffio, cofnodion hyfforddi a recriwtio'r staff, dogfennaeth sicrhau ansawdd, polisïau/gweithdrefnau.
- Gwnaethom archwilio'r Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth y gwnaethom ei arsylwi. Mae'r Datganiad o Ddiben yn pennu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yn dangos y ffordd y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig o ran y lefelau staffio ac ati.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Gwasanaeth	Steddy Ltd
Rheolwr	Gwyneth Steddy Ruth Keen
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	12/12/2017
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	16/01/2019 a 17/01/2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol:	